
**EHANGU GORWELION:
BUDDION RHAGLEN ERASMUS+ I
SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH
YNG NGHYMRU**

Hydref 2020

CYD-DESTUN

Mae ColegauCymru yn cydweithio â'r Cyngor Prydeinig, Asiantaeth Genedlaethol Erasmus+, colegau addysg bellach (AB) a rhwydwaith eang o bartneriaid rhyngwladol er mwyn darparu lleoliadau gwaith, hyfforddiant ac ymweliadau astudio dramor i ddysgwyr, prentisiaid a staff o'r sector.

Ers lansio Erasmus+ yn 2014, mae ColegauCymru wedi sicrhau dros €7miliwn o fuddsoddiad i ddysgwyr galwedigaethol a phrentisiaid ymgymryd â lleoliadau gwaith 2 i 3 wythnos ledled Ewrop. Defnyddiwyd cyfran o'r cyllid hwn (€208,970) i alluogi darlithwyr, rheolwyr ac arweinwyr colegau ledled Cymru i ymgymryd â DPP arloesol yn y Ffindir, Gwlad y Basg (Sbaen), Catalwnia, Denmarc a'r Eidal. Mae'r ymweliadau'n canolbwyntio ar ategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector AB, a'r mwyaf diweddar yw ymweliadau i'r Ffindir a'r Eidal i archwilio rhyngwladoli Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (VET) a sut i ddatblygu strategaeth ryngwladol ar gyfer y sector.

Mae gan ColegauCymru gyllid hefyd o geisiadau symudedd staff Erasmus+ yn 2019 a 2020. Defnyddir cyllid 2019 i ymweld â'r Weinyddiaeth Diwylliant, Ieuencid a Chwaraeon yn Stuttgart i gael mewnwelediad i strategaeth ddigideiddio VET y rhanbarth. Bydd ffocws y cais a wnaed yn 2020 yn canolbwyntio ar ddatblygu fframwaith dysgu proffesiynol ar gyfer y sector gydag ymweliadau wedi'u cynllunio ar gyfer


Awstria, Iwerddon a Norwy. Ar hyn o bryd, mae'r ymweliadau hyn wedi eu gohirio oherwydd cyfyngiadau Covid19.

Cefndir

Mae colegau AB wedi elwa o gyllid Ewropeaidd sydd wedi helpu i gefnogi ac uwchsgilio poblogaeth Cymru, ac i wneud cyfraniadau pwysig i fusnes a'r economi, yn aml yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru¹. Mae symudiadau galwedigaethol dramor wedi ehangu gorwelion ac wedi codi dyheadau dysgwyr, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, a rhaid i'r cyfleoedd hyn parhau i fod ar gael ar gyfer y garfan nesaf o ddysgwyr.

Yn ystod rownd 2020 o geisiadau Erasmus+, llwyddodd ColegauCymru i sicrhau cyllid o €2.2m ar gyfer prosiectau a oedd bod i redeg tan 2022. Bydd y saith mlynedd nesaf o gyllid Erasmus+ yn rhedeg rhwng 2021 a 2027. Fodd bynnag, ar hyn o bryd yn nhrefodaethau Brexit, nid ydym yn gwybod o hyd a fydd y DU yn cymryd rhan yn y cylchdro cyllido hwn. Mae hyn yn golygu bod cyfranogiad ein dysgwyr a'n staff yn y cyfleoedd hyn mewn perygl. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei safbwynt gan nodi mai'r senario orau bosibl yw bod y DU yn parhau i fod yn aelod llawn o Erasmus+ ond Llywodraeth y DU fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

¹ <https://www.colleges.wales/image/publications/reports/Involvement%20of%20Welsh%20FE%20colleges%20and%20institutions%20in%20EU%20funding/Involvement%20of%20Welsh%20FE%20colleges%20and%20institutions%20in%20EU%20funding%20Nov%202017%20ENG.pdf>



“Fe wnaeth y daith hon fy rhoi allan o fy mharth cysur mewn sawl ffordd, a helpodd fi i dyfu’n fawr fel person, gan wella fy hyder, y gallaf ei roi tuag at fy sgiliau cyflogadwyedd.”

Myfyriwr Cyfryngau, Coleg Caerdydd a'r Fro (Sbaen)

Goruchwylir rhaglen Erasmus+ y DU gan Adran Addysg y DU. Mae'n cael ei reoli gan Fwrdd Rhaglen sydd â chynrychiolaeth Llywodraeth Cymru. Yr Asiantaeth Genedlaethol (Cyngor Prydain mewn partneriaeth ag Ecorys) sy'n cyflawni Erasmus+ yn gyffredinol yn y DU. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu oddeutu £200,000 y flwyddyn tuag at gostau Erasmus+ i Lywodraeth y DU (gan ddefnyddio fformiwla Barnett ar sail poblogaeth). Mae hyn yn talu costau rheoli, cyflwyno a hyrwyddo'r rhaglen ac yn sicrhau bod y gronfa'n hygyrch i sefydliadau Cymru.

Mae'r berthynas rhwng Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ac Erasmus+ yn gyflenwol. Er enghraifft, mae'r rhaglenni ESF yn darparu cefnogaeth sylweddol ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru (megis prentisiaethau) ac mae Erasmus+ wedi cefnogi cynllun Symudedd Dysgu Galwedigaethol ledled Gymru sy'n cael ei redeg gan ColegauCymru. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid oes unrhyw fanylion nac eglurder o hyd ynglŷn â sut olwg fydd ar ddisodli cyllid yr UE- Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU. Heb wybod faint o arian, ynghyd â'r blaenoriaethau a'r prosesau angenrheidiol, mae'n amhosibl i'r sector AB baratoi'n llawn ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Rhaid peidio â thanamcangyfrif y lefel uchel o bryder ynghylch y posibilrwydd o golli'r cyllid hwn ar draws y sector AB.

Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd mewn Addysg a Hyfforddiant

Galwedigaethol (EQAVET)

Mae'r prosiect EQAVET cyfredol yn astudiaeth gynhwysfawr i systemau olrhain graddedigion sy'n gweithredu'n dda yng ngwledydd eraill yr UE. Mae'r thema hon yn unol ag amcanion Argymhelliad y Cyngor Ewropeaidd ar olrhain graddedigion. Ar hyn o bryd mae ColegauCymru'n gweithio ar gam 2 y cynnig, i ymchwilio i'r arfer gorau yn y gwledydd a ddewiswyd, gan gynnwys ymweliadau â rhanddeiliaid allweddol. Er y cychwynnodd y cam hwn gydag ymweliad peilot llwyddiannus ag Iwerddon ym mis Rhagfyr 2019, canslwyd yr ail ymweliad i'r Iseldiroedd ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig. Ers hynny, mae'r tîm wedi addasu eu harddull gweithio i gynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol gan ddefnyddio llwyfannau ar-lein.

Dyma drydydd prosiect ColegauCymru a ariennir trwy alwad gyfyngedig EQAVET a bydd yn canolbwyntio ar wledydd a rhanbarthau Ewrop sydd â phrosesau casglu data o ansawdd uchel a defnydd effeithiol o'r data hwnnw. Mae prosiectau blaenorol wedi canolbwyntio ar sgiliau a chydnerthedd economaidd, yn ogystal ag anghenion hyfforddi yn y sectorau manwerthu, twristiaeth a lletygarwch².

ADBORTH YR YMWELIAD SYMUDEDD

Mae'n amlwg gweld, o safbwynt y dysgwr, fod y cyfle i brofi gwahanol ddiwylliannau a gweithio mewn cyd-destun tramor o fudd mawr mewn amrywiaeth o feysydd megis datblygiad a sgiliau. Mae Erasmus+ yn darparu cyfleoedd unigryw, yn gwella sgiliau dysgwyr, ac yn eu harfogi â sgiliau allweddol i ddatblygu a thyfu.


Gan adeiladu ar y dystiolaeth hon, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau cyfranogiad y DU yn Erasmus+ ar gyfer y dyfodol. Os nad yw'n bosibl cymryd rhan lawn yn Erasmus+, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun amgen i sicrhau y gall

dysgwyr o Gymru elwa o hyd o'r cyfleoedd a'r datblygiad a oedd ar gael i genedlaethau cynharach o ddysgwyr.




CANLYNIAD CYFARTALOG YN ÔL SECTOR

Ffig. 1



Mae'n amlwg gweld, o safbwynt y dysgwr, fod y cyfle i brofi gwahanol ddiwylliannau a gweithio mewn cyd-destun tramor o fudd mawr mewn amrywiaeth o feysydd megis datblygiad a sgiliau. Mae Erasmus+ yn darparu cyfleoedd unigryw, yn gwella sgiliau dysgwyr, ac yn eu harfogi â sgiliau allweddol i ddatblygu a thyfu.

Gan adeiladu ar y dystiolaeth hon, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau cyfranogiad y DU yn Erasmus+ ar gyfer y dyfodol. Os nad yw'n bosibl cymryd rhan lawn yn Erasmus+, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun amgen i sicrhau y gall dysgwyr o Gymru elwa o hyd o'r cyfleoedd a'r datblygiad a oedd ar gael i genedlaethau cynharach o ddysgwyr.



"Dysgais sgiliau a fydd yn fy helpu ar gyfer sgiliau bywyd prifysgol a chyffredinol yn y dyfodol megis, teithio, byw gyda phobl eraill, dod o hyd i gludiant yn ôl ac ymlaen i leoedd."

Myfyriwr Gofal, Coleg Gwent (Y Ffindir)

Cefnogaeth Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol o Erasmus+ a chyfranogiad parhaus Cymru yn y rhaglen yn dilyn Brexit. Mae Gweinidogion, gan gynnwys Prif Weinidog Cymru a Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, wedi rhannu eu pryder ynghylch colled bosibl y rhaglen newid bywyd hon. Ar 13 Awst 2019, dadleuodd y Gweinidog Addysg Kirsty Williams, ynghyd â Gweinidog AB ac Uwch yr Alban, Richard Lochhead, yr achos dros barhau i gymryd rhan yn y rhaglen. Fe wnaethant alw ar yr

Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i gwrdd â nhw ar frys i sicrhau bod Cymru a'r Alban yn parhau i fod yn gyfranogwyr llawn yn rhaglen Erasmus+³.

Er bod Llywodraeth Cymru ac llawer o Aelodau'r Senedd wedi dangos cefnogaeth barhaus i raglen Erasmus+, Llywodraeth y DU fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

³https://llyw.cymru/pryder-y-bydd-myfyrwyr-o-gymru-yn-coli-cyfle-i-fanteisio-ar-gynllun-cyfnwid-rhyngwladol?_ga=2.250615878.1950110119.1603895100-1245712430.1590052560

CASGLIAD - CYNNAL CYSYLLTIADAU A CHYFRANOGI

Dewis ColegauCymru yw i Gymru, drwy'r DU, aros yn rhan o gynllun llawn Erasmus+. Fodd bynnag, os nad yw'r DU yn rhan o Erasmus+ ar ôl Brexit, bydd angen i Lywodraeth y DU sicrhau nad oes bwlch yn y cyllid ar gyfer sefydliadau wrth iddynt ddatblygu dewis arall. Yn yr un modd, heb fwy o fanylion am y Gronfa Ffyniant Cyffredin arfaethedig Llywodraeth y DU, a fydd yn disodli cyllid yr UE, mae'n anodd cynllunio trefniadau amgen domestig o'r fath.

Mae ColegauCymru yn pryderu, os nad yw'r DU bellach yn rhan o Erasmus+, y gallai perthnasoedd â phartneriaid yn yr UE gael effaith negyddol. Ers gadael yr UE ym mis Ionawr 2020, mae'r DU eisoes wedi'i heithrio o rai rhwydweithiau ar lefel y Comisiwn Ewropeaidd fel y Grŵp Cyngori ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (EQF) a chyfarfodydd fforwm Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd mewn Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (EQAVET). Cynrychiolodd ColegauCymru Gymru yn y cyfarfodydd rhwydwaith hyn a'n dealltwriaeth oedd y byddem yn dal i allu cymryd rhan trwy gydol y cyfnod pontio. Mae'r cyfleoedd rhwydweithio hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cymwysterau a phrosesau sicrhau ansawdd Cymru ar gyfer VET yn unol â'r rhai ledled Ewrop, ac yn darparu chwarae teg i weithwyr a chyflogwyr ledled yr UE.

Mae cynllun Erasmus+ wedi cynnig cyfle i ddysgwyr a staff ehangu eu gorwelion, i feddwl yn wahanol am ddysgu, haddysgu yn ogystal â gyrfaoedd a datblygiad yn y dyfodol. Wrth i ni addasu i'r newidiadau a ddaeth yn sgil Covid-19, bydd angen i ni feddwl am ffyrdd creadigol o addasu ac ehangu ein cyswllt â phartneriaid Ewropeaidd a byd-eang yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r egwyddor o ymrwymo i Erasmus+, ei gyfleoedd a'i fuddion, yn holl bwysig.

SIÂN HOLLERAN
RHEOLWR PROSIECT EWROPEAIDD A
RHYNGWLADOL



Rheolwr Prosiect Ewropeaidd a Rhyngwladol Colegau Cymru yw Siân. Mae ei phrif feysydd gwaith yn cynnwys cydlynu rhaglen o gyfleoedd hyfforddiant tramor i staff, dysgwyr a phrentisiaid, gan weithredu dros Lywodraeth Cymru fel Pwynt Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer mentrau'r UE a gwerthu Cymru i'r byd trwy weithio ar y cyd gyda phartneriaid rhyngwladol. Mae hi hefyd yn cynrychioli'r sector addysg bellach ar y grŵp llywio Llwybrau i leithoedd Cymru.



Ffôn
02920 522 500

Colegau Cymru
U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

E-bost
helo@colegaucymru.ac.uk

Gwefan
www.colegau.cymru